

Crynodeb Allweddol Digwyddiad Ymgysylltu'r Strategaeth Arloesi:

Sefydliadau a oedd yn bresennol:

ARCH, Prifysgolion Cymru, Unedig Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys GIG Cymru, Innovate UK, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Celsa UK, Oseng-Rees Reflection, ETL Solutions Ltd, MediWales, Prifysgol Aberystwyth, AMRC Cymru, IQE, Prifysgol De Cymru, WRAP, Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, Taylor Lane, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Busnes Cymru, Benfield Timber Products, Petrostat, EPSRC, Cartrefi Dinas Casnewydd, DBK Technitherm Ltd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Baz Creative Ltd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Prifysgol Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Challoch Energy, Simply Do Ideas, Ymgynghoriaeth Nia Roberts, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Pobl Group, Cyngor Sir Bro Morgannwg, Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru, HEFCW, Red Knight Consultancy Ltd, Prifysgol Caerdydd, Tyfu Canolbarth Cymru, British Business Bank, Caredig, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Athrofa Gwyddor Bywyd Prifysgol Abertawe, Straits Line Ltd, Cherrett Change Consultants, y Sefydliad Tai Siartredig, Clwstwr, Pant Du

Cyflwyniad:

Yn dilyn cyhoeddiad model rhesymeg drafft ar gyfer Strategaeth Arloesi Cymru, cynigiodd y digwyddiad ymgysylltu hwn gyfle i randdeiliaid drafod y model a rhannu sylwadau amdano.

Y Digwyddiad:

Hysbysebwyd y digwyddiad drwy'r cylchlythyr Arloesi, LinkedIn a Twitter. Rhoddwyd gwybod am y digwyddiad hefyd i bob sefydliad a oedd eisoes wedi mynegi diddordeb yn y Strategaeth Arloesi. Cafodd pob cyfranogwr gyfle i ddarllen y model rhesymeg cyn y sesiwn. Dechreuodd y digwyddiad gyda chyflwyniad i'r model rhesymeg, yna cafwyd trafodaeth agored ynghylch y gweithgareddau, gan gwmpasu meysydd gwella ac unrhyw adborth.

Dyma oedd y cwestiynau a ofynnwyd yn ystod y digwyddiad:

- A oes unrhyw weithgareddau arloesi nad ydynt wedi'u cynnwys yn y model, neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys na ddylai fod yn rhan o'r ecosystem arloesi?
- Sut mae pobl yn teimlo am y metrigau a ddefnyddir i fesur yn y model rhesymeg, pa fertigau sydd ar goll neu ba rai na ddylid eu defnyddio i fesur arloesedd?

- Pa ganlyniadau y dylem geisio eu cyflawni yn y gofod arloesi, a oes unrhyw rai ar goll o'r model rhesymeg?

Themâu Allweddol:

Gweithgareddau:

- Egwyddorion yr economi gylchol: Gwnaeth sawl cyfrannwr nodi pwysigrwydd ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol o fewn rhannau amrywiol o'r economi, a defnyddiwyd cadwyni cyflenwi fel enghreifftiau i ychwanegu ffrydiau sy'n darparu mwy o werth ac o fewn y gweithlu.
- Codwyd pwynt am bwysigrwydd gwella caffael, rhannu gwybodaeth, effeithiolrwydd rhannu data, y gallu i wneud cysylltiadau ac effeithlonrwydd adnoddau.
- Hyrwyddo gweithio integredig: Codwyd pwynt am y cyfle i'r strategaeth gael ei defnyddio i hyrwyddo ac annog arloesedd mewn gofodau integredig megis y gofod rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynullyddion Strategol: Roedd sylwadau cadarnhaol ynghylch cynnwys Addysg Uwch ac AB yn y model ond tynnwyd sylw at y ffaith y gellid nodi mwy am rôl cynullyddion strategol o ran sianeli cyllid a dod â grwpiau ynghyd i greu platfformau o fewn y model.
- Maethu diwylliant arloesol: Roedd annog diwylliant arloesol yn thema amlwg yn y drafodaeth. Ymhlith y ffactorau a nodwyd yr effeithiodd ar y rhain oedd gallu busnesau a sefydliadau i fabwysiadu ac addasu, yr amgylchedd lle rydym yn defnyddio arloesedd ac annog pobl i gymryd risg drwy sicrhau bod y llywodraeth yn rhannu risg â sefydliadau.
- Ffocws gweithgareddau arloesi: Gwnaed sawl sylw am ffocws y gweithgareddau arloesi. Un pryder a godwyd oedd perygl lledaenu ein hunain yn rhy denau wrth geisio cynyddu arloesedd ledled Cymru. Cafwyd adborth hefyd am bwysigrwydd ffocysu arloesedd ar feysydd o gryfder a màs critigol (e.e. Arbenigo Clyfar) a hefyd addysgu'r gynulleidfa ehangach o ddiffiniad arloesedd.
- Ailsgilio'r gweithlu: Cydnabuwyd pwysigrwydd darganfod a oes gennym ar hyn o bryd unrhyw gyllid neu unrhyw weithgareddau eraill wedi'u hanelu at ailsgilio'r gweithlu mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag arloesi e.e. rhaglennu i ysgogi newid a gwella'r gwerth presennol a ychwanegir gan y gweithlu, a chodwyd pwyntiau ynghylch y mater hwn.
- Pwysigrwydd trawsnewid prosesau presennol: Pwnc sy'n codi dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd meddwl a gwneud pethau'n wahanol wrth geisio bod yn arloesol. Roedd hyn yn cynnwys y syniad o edrych ar brosesau yn hytrach na gweithgareddau, a defnyddio polisïau i annog ffyrdd gwahanol o weithio, oherwydd yn aml mae'r ysgogiadau eisoes ar gael i ni ond y ffordd rydym yn eu defnyddio sy'n ysgogi arloesedd. Ymhlith yr enghreifftiau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio rhai o rwystrau presennol y sector cyhoeddus o ran arloesedd oedd caffael, gallu'r sector cyhoeddus i gymryd rhan mewn prosiectau

cydweithredol, rheoli risg a pharodrwydd i gymryd risg. Yn debyg i hyn, gwnaed pwyntiau am y ffaith bod y strategaeth yn i gael gwared ar rwystrau sy'n atal arloesedd a defnyddiwyd llywodraethu gwybodaeth fel enghraifft.

- Gweithgareddau: Cydnabuwyd yr angen i gefnogi'r rhai hynny sy'n barod i gymryd risg i fod yn arloesol.

Metrigau:

- Cafwyd adborth cadarnhaol am gynnwys PROMS, PREMS ac incwm y sector cyhoeddus yn y model rhesymeg. Ychwanegiadau eraill a awgrymir at y roedd y metrigau a restrwyd yn cynnwys rhychwant iechyd ochr yn ochr â rhychwant oes i ddal iachach bywydau a CMC y pen fel mesur ar gyfer llewyrchus.

Canlyniadau:

- Rheoli methiant: Bu trafodaeth am fethiant a dywedwyd bod dysgu ohono'n rhan bwysig o weithgareddau arloesi. Gofynnwyd cwestiynau am sut y caiff methiant ei reoli a sut y rhoddir gwybod amdano, ac i ba raddau y bydd y cyhoedd yn derbyn efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn ariannu sefydliadau a all fethu. Nodwyd petai rhywun yn sylweddoli ar fethiant yn ddigon cynnar a bod gwaith ymyrraeth yn effeithiol, gall prosiectau aflwyddiannus fod yn adeiladol yn hytrach na rhai gwael, gan fod methiant yn gallu gwasanaethu i ddadrisgio ac ein hatal rhag buddsoddi gormod mewn gweithgareddau nad ydynt yn werth chweil.
- Cyflawni canlyniad: Nodwyd bod y cydweithrediad i gyflawni'r canlyniadau a ddogfennir yn allweddol o ran llwyddiant y broses o roi'r strategaeth ar waith.
- Canlyniadau a enwir: Nodwyd bod economi carbon isel, gweithgynhyrchu uchel ei werth a gwyddoniaeth yn bwysig i'w cynnwys yn y strategaeth.

Adborth arall:

- Edrych y tu allan i Gymru am weithgareddau arloesi: Pwysigrwydd edrych y tu hwnt i'n ffiniau ar gyfer enghreifftiau o arferion gorau o safbwynt arloesedd, a'r hyn y gallwn ei ddysgu o'r gwledydd hynny sydd ar flaen y gad ym maes arloesedd.
- Lle BBaCh yn y strategaeth: Mewn rhai achosion gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol weithredu fel rhwystr ar gyfer y BBaChau, neu eu diystyru, o ran contractau a thendrau. Nodwyd hefyd gan fod yna wahanol ddiffiniadau o arloesedd efallai na fydd llawer o weithgareddau arloesi sy'n digwydd mewn BbaChau yn cael eu cydnabod bob amser. Cydnabuwyd yr angen i BBaChau gael lle a chynrychioliad clir o fewn y strategaeth.
- Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar gyfer y diffiniad eang o arloesedd a ddefnyddiwyd yn y model.
- Nodwyd buddsoddiad mewnol fel mewnbyn y dylai fod yn fwy amlwg

- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a ydym wedi myfyrio ar strategaethau arloesi blaenorol i lywio'n camau wrth symud ymlaen.

Adborth:

Os oes gennych unrhyw adborth ar y model rhesymeg neu yr hoffech gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu e-bostiwrch InnovationStrategy@llyw.cymru i gyfrannu at y drafodaeth.